Canllawiau i Benderfynwyr

Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

# Canllawiau i Benderfynwyr y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol:

# Sancsiynau

Canllawiau Arfaethedig a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad, Mehefin 2026



Delwedd: Flaticon.com

Cynnig a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad gan y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, Mehefin 2026

# Canllawiau'r GCC i Benderfynwyr

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ('GCC') yw rheoleiddiwr statudol y proffesiwn ceiropracteg yn y DU. Mae ei swyddogaethau wedi'u nodi yn Neddf Ceiropractyddion 1994 ('y Ddeddf').

Fel rheoleiddiwr mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd a all gael effaith sylweddol ar fywydau pobl, ac ein dyhead yw gwneud y penderfyniadau hyn mewn ffordd fwy cymesur. Rydym yn ceisio gwneud penderfyniadau mwy teg, gwrthrychol a chyson sy'n cydnabod ac yn lliniaru risg tuedd.

Nod Canllawiau'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol i Benderfynwyr yw hyrwyddo cysondeb ac agoredrwydd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o'r cychwyn cyntaf o'r dull y byddwn yn ei gymryd wrth wneud penderfyniadau.

Gall y canllawiau hefyd fod yn ddefnyddiol i geiropractyddion ac aelodau'r cyhoedd sydd am ddeall mwy am reoleiddio'r proffesiwn ceiropractig.

Mae'r canllawiau'n darparu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau a sut y disgwylir i'r penderfynwr ei gymhwyso. Mae'r canllawiau yno i gynorthwyo gwneud penderfyniadau sy'n dryloyw, yn deg ac yn gyson ac, er mai canllawiau ydynt, dylai'r penderfynwr ddarparu rhesymau ysgrifenedig clir dros unrhyw wyriad oddi wrthynt.

## Diben y Canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu gan y GCC at ddefnydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ('PCC') a'r Pwyllgor Iechyd ('HC') wrth ystyried pa sancsiwn i'w osod ar geiropractydd. Mae'n amlinellu'r broses penderfynu a'r ffactorau i'w hystyried.

# Hanes Cyhoeddi

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn Mehefin 2026 i ymgynghori arnynt.

### Cofnod Newidiadau

| Dyddiad | Newid |
|---|---|
| Mehefin 2026<br><br>Cyhoeddwyd yr argraffiad arfaethedig hwn i ymgynghori arno. | Cyfeiriadau at egwyddorion a safonau o fewn y Cod (2016) wedi'u diweddaru i gyfwerth yn y Cod Ymarfer Proffesiynol (2026). Canllawiau pellach wedi'u cynnwys ar<br>• Gwahanu ffeithiau achos oddi wrth benderfyniad o UPC<br>• Dull penderfynu a rhesymu<br>• Penderfyniadau'r Pwyllgor Iechyd<br>• Gosod sancsiynau lle mae gwahaniaethu neu gamymddwyn rhywiol yn ffactor. |
| Mai 2018 | Trydydd argraffiad wedi'i gyhoeddi. |
| Awst 2010 | Ail argraffiad wedi'i gyhoeddi. |
| Hydref 2004 | Argraffiad cyntaf wedi'i gyhoeddi. |

# Cynnwys

Rhagarweiniad. Rôl a Statws y Canllawiau ar Sancsiynau ........ 4
Ymagwedd at Sancsiynau a Rhesymau ........ 5
Pam y mae sancsiynau'n cael eu gosod? ........ 5
Natur yr honiadau ........ 5
Dull cam wrth gam ........ 6
Cyflwyniadau ........ 6
Dull o sancsiynu ........ 7
Rhesymau ........ 7
Gorchmynion interim ........ 8
Y Sancsiynau Sydd ar Gael ........ 8
Trosolwg ........ 8
Cerydd ........ 9
Gorchymyn Amodau Ymarfer ........ 10
Atal Dros Dro ........ 13
Tynnu oddi ar y gofrestr ........ 15
Ffactorau a Thystiolaeth ........ 17
Niwed a achoswyd neu risg o niwed ........ 17
Ailadrodd ........ 17
Mewnwelediad ac unioni ........ 17
Pryderon rheoleiddio blaenorol ........ 19
Geirdaon a thystlythyrau ........ 19
Ffactorau lliniarol a gwaethygol ........ 20
Ffactorau lliniarol ........ 20
Ffactorau gwaethygol ........ 21
Categorïau penodol o achosion ........ 22
Euogfarnau ........ 22
Camymddwyn Rhywiol ........ 23
Anonestrwydd ........ 24
Methu â darparu lefel dderbyniol o driniaeth neu ofal ........ 26
Gwrandawiadau adolygu ........ 26
Atal Dros Dro Interim ........ 28
Pwyllgorau Iechyd ........ 29
Dull y Pwyllgor Iechyd ........ 29
Gorchymyn Amodau Ymarfer ........ 29
Gorchymyn atal dros dro gan Bwyllgor Iechyd ........ 30
Atal Dros Dro Interim ........ 30
Gwrandawiadau adolygu gan y HC ........ 31
Cyfeiriadau ........ 32

# Rhagarweiniad.
# Rôl a Statws y Canllawiau ar Sancsiynau

1. Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ('GCC') yw rheoleiddiwr statudol y proffesiwn ceiropracteg yn y DU. Mae ei swyddogaethau wedi'u nodi yn Neddf Ceiropractyddion 1994 ('y Ddeddf').
2. Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu gan y GCC at ddefnydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ('PCC') a'r Pwyllgor Iechyd ('HC') wrth ystyried pa sancsiwn i'w osod ar geiropractydd. Mae'n amlinellu'r broses penderfynu a'r ffactorau i'w hystyried.
3. Nod y canllawiau ar sancsiynau yw hyrwyddo cysondeb ac agoredrwydd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o'r cychwyn cyntaf o'r dull i'w gymryd wrth wneud penderfyniadau.
4. Gall y canllawiau hefyd fod yn ddefnyddiol i geiropractyddion ac aelodau'r cyhoedd sydd am ddeall mwy am reoleiddio ceiropractyddion.
5. Mae'r canllawiau hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau sancsiynau ac mae disgwyl i bwyllgorau ei gymhwyso. Mae'r canllawiau yno i gynorthwyo'r pwyllgor i wneud penderfyniadau sy'n dryloyw, yn deg ac yn gyson ac, er mai canllawiau ydynt, dylai'r pwyllgor ddarparu rhesymau ysgrifenedig clir dros unrhyw wyriad oddi wrthynt.
6. Mae'r canllawiau sancsiynau yn gyswllt pwysig rhwng dau o rolau rheoleiddio'r GCC: gosod safonau ymddygiad ac ymarfer ar gyfer y proffesiwn ac ymdrin â chwynion yn erbyn ceiropractyddion. Cyngor y GCC sy'n gyfrifol am yr holl benderfyniadau a wneir gan y PCC a'r HC, er nad yw aelodau'r cyngor yn eistedd ar y naill bwyllgor. Rhaid i'r aelodau ceiropractig a lleyg a benodir gan y Cyngor i eistedd ar y PCC a'r HC ddefnyddio eu barn eu hunain wrth benderfynu a yw honiadau yn erbyn ceiropractyddion ar sail gadarn. Rhaid i'r penderfyniadau annibynnol hyn ystyried gofynion y Cod Ymarfer Proffesiynol[1], a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2026 ac unrhyw ganllawiau eraill y mae'r GCC yn eu cyhoeddi i'r proffesiwn.
7. Mae'r canllawiau hyn yn dod i rym ac yn cael eu cymhwyso o [DATE]. Mewn unrhyw achos lle roedd pwyllgor, cyn [DATE], wedi penderfynu bod sail gadarn i honiad ac wedi clywed unrhyw gyflwyniadau ynghylch sancsiwn gan y partïon ond wedi gohirio'r gwrandawiad cyn penderfynu ar sancsiwn, bydd y pwyllgor hwnnw'n parhau i gymhwyso'r canllawiau sancsiynau dangosol a oedd mewn grym ar y dyddiad y gohiriodd y gwrandawiad. Mewn pob achos arall, bydd y canllawiau hyn yn cael eu cymhwyso.

[1] Y Cod Ymddygiad Proffesiynol (2026) – Cyfeirnod 1

# Ymagwedd at Sancsiynau a Rhesymau

8. Un o ddibenion y canllaw hwn yw hyrwyddo cysondeb wrth wneud penderfyniadau, er y bydd pob achos yn cael ei ystyried ar ei ffeithiau ei hun. Dylai penderfyniadau fod yn glir am pam fod sancsiwn penodol wedi'i osod ym mhob achos.

9. Dylid ystyried unrhyw restr o ffactorau y cyfeirir ati yn y canllawiau hyn fel rhestr anghynhwysfawr. Dylai pwyllgorau ddefnyddio eu disgresiwn wrth osod sancsiynau a gallant ystyried unrhyw ffactorau eraill y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol ac yn gymesur.

## Pam y mae sancsiynau'n cael eu gosod?

10. Y prif reswm am osod sancsiynau yw amddiffyn y cyhoedd, sef amcan statudol trosfwaol y GCC.[2]

11. Mae ymgais i amddiffyn y cyhoedd yn cynnwys gweithredu:

> a) i amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;
> b) i hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn ceiropractig; ac
> c) i hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol i aelodau i'r proffesiwn ceiropractig.[3]

12. Nid cosbi yw pwrpas sancsiwn, er y gallai sancsiwn gael effeithiau cosbol neu negyddol ar geiropractydd. Fodd bynnag, ni fydd hyn fel arfer yn effeithio ar asesiad y pwyllgor o beth yw'r sancsiwn lleiaf sy'n angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd.

## Natur yr honiadau

13. Mae Adran 20(1) y Ddeddf yn nodi pedwar math o honiad:

> a) mae'r ceiropractydd wedi bod yn euog o ymddygiad sy'n is na'r safon sy'n ofynnol gan geiropractydd cofrestredig (a ddiffinnir yn adran 20(2) fel "ymddygiad proffesiynol annerbyniol", y cyfeirir ato yn y canllawiau hyn fel 'UPC');
> b) mae'r ceiropractydd wedi bod yn euog o anghymhwysedd proffesiynol;
> c) mae'r ceiropractydd wedi cael eu heuogfarnu (ar unrhyw adeg) yn y Deyrnas Unedig o drosedd;
> d) mae gallu'r ceiropractydd i ymarfer fel ceiropractydd wedi'i amharu'n ddifrifol oherwydd eu cyflwr corfforol neu feddyliol.

14. Pan wneir honiad o'r fath, bydd y GCC yn ei gyfeirio i'w ystyried gan y Pwyllgor Ymchwilio ('IC'). Os yw'r IC yn ystyried bod achos i'w ateb, bydd honiadau ynghylch iechyd corfforol neu feddyliol ceiropractydd yn cael eu cyfeirio at yr HC a bydd honiadau o unrhyw fath arall yn cael eu cyfeirio at y PCC[4].

---

[2] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 1(4A) – Cyfeirnod 2
[3] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 1(4B) (a) – (c) – Cyfeirnod 2
[4] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 20(12) – Cyfeirnod 2

## Dull cam wrth gam

15. Rhaid i bwyllgorau ddilyn dull dilyniannol cyn symud ymlaen i ystyried sancsiwn. Mae'r dull i'w ddilyn yn dibynnu ar y math o honiad.

16. Mewn achos honiad ynghylch naill ai UPC neu anghymhwysedd proffesiynol, mae'n rhaid i'r PCC benderfynu:

a) a yw'r ffeithiau fel y'u nodir yn yr honiad wedi'u profi gan y GCC yn ôl "cydbwysedd tebygolrwydd". Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r GCC brofi ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod beth bynnag a honnir wedi digwydd. Nid lle'r ceiropractydd yw gwrthbrofi'r honiad. Os nad oes yr un o'r ffeithiau wedi'u profi, nid yw'r honiad ar sail gadarn;
b) os yw unrhyw un o'r ffeithiau wedi'u profi, a yw rhai neu'r cyfan o'r rhain (p'un ai'n unigol neu ar y cyd) yn gyfystyr ag anghymhwysedd proffesiynol neu UPC, fel yr honnir. Os yw'r PCC yn canfod nad ydynt, nid yw'r honiad ar sail gadarn;
c) os yw'r trothwy ar gyfer UPC neu anghymhwysedd proffesiynol yn cael ei gyrraedd, pa sancsiwn yw'r lleiafswm sy'n angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd.

17. Bydd y PCC yn mynd ati i wneud penderfyniad drwy wneud dyfarniadau ar bob un o'r tri cham hyn.

18. Mae'r safonau sy'n ofynnol gan geiropractydd cofrestredig wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer Proffesiynol. Mae Adran 19(4) o'r Ddeddf yn amodi, lle honnir a chanfyddir bod ceiropractydd wedi torri unrhyw ddarpariaeth o fewn y Cod Ymarfer Proffesiynol, na fydd hyn, ynddo'i hun, yn gyfystyr â UPC ond bydd yn cael ei ystyried. Dyma'r dull i'w gymryd hefyd mewn achosion o anghymhwysedd honedig.

19. Yn achos honiad ynghylch euogfarn, mae'n rhaid i'r PCC benderfynu yn y drefn hon:

a) a yw ffaith yr euogfarn wedi'i phrofi. Mae'r broses i'w dilyn gan y PCC mewn achosion o'r fath wedi'i nodi'n fanylach isod (gweler Euogfarnau). Os nad yw ffaith yr euogfarn wedi'i phrofi, nid yw'r honiad ar sail gadarn. Os yw ffaith yr euogfarn wedi'i phrofi, mae'r mater ar sail gadarn;
b) os yw'r honiad ar sail gadarn, p'un a oes gan y drosedd unrhyw berthnasedd materol i ffitrwydd y ceiropractydd i ymarfer ceiropracteg. Os nad oes ganddi unrhyw berthnasedd materol, ni chaiff y PCC gymryd unrhyw gamau gweithredu pellach;
c) os oes gan y drosedd berthnasedd materol, pa un o'r sancsiynau sydd ar gael yw'r lleiafswm angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd.

20. Bydd y PCC yn mynd ati i wneud penderfyniad drwy wneud dyfarniadau ar bob un o'r tri cham hyn.

## Cyflwyniadau

21. Pan fo sail gadarn i'r honiad, gall y GCC a'r ceiropractydd wneud cyflwyniadau am y sancsiwn priodol i'w osod. Dylai'r pwyllgor ystyried y cyflwyniadau hynny wrth benderfynu ar y sancsiwn priodol ond nid yw wedi'i rwymo ganddynt.

## Dull o sancsiynu

22. Bydd y pwyllgor yn mabwysiadu'r dull canlynol o sancsiynu:

a) atgoffa ei hun o'i ganfyddiadau ffeithiol a'i resymau dros ganfod bod unrhyw honiad ar sail gadarn a sicrhau nad yw ei benderfyniad ar sancsiynu yn anghyson â'r canfyddiadau cynharach hynny;
b) ystyried y sancsiynau sydd ar gael mewn trefn esgynnol, gan ddechrau gyda'r opsiwn lleiaf cyfyngol, gan symud i fyny os credir bod yr opsiwn hwnnw'n annigonol, a stopio pan fydd yn cyrraedd y sancsiwn lleiaf cyfyngol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan statudol trosfwaol. Bydd angen i'r pwyllgor esbonio pam nad ystyrir bod y sancsiwn mwy cyfyngol nesaf yn angenrheidiol;
c) ystyried unrhyw dystiolaeth arall sy'n berthnasol i'r sancsiwn (gweler Ffactorau a Thystiolaeth);
d) nodi unrhyw ffactorau gwaethygol a lliniarol (gweler Ffactorau Gwaethygol a Lliniarol);
e) ystyried a yw'r ymddygiad yn dod o fewn y categorïau penodol a nodwyd gan y canllawiau hyn (gweler Categorïau Penodol Achos);
f) ystyried a ddylid gorchymyn Gwrandawiad Adolygu (gweler Gwrandawiadau Adolygu);
g) lle gwneir Gorchymyn Atal Dros Dro neu Orchymyn Tynnu oddi ar y Gofrestr, ystyried a oes angen Gorchymyn Atal Dros Dro Interim (gweler Atal Dros Dro Interim).

23. Rhaid i'r pwyllgor gadw'r amcan statudol trosfwaol i amddiffyn y cyhoedd, a'r tair cangen a nodir ym mharagraff 11, ym mlaen ei feddwl bob amser.

## Rhesymau

24. Rhaid i benderfyniad ysgrifenedig y pwyllgor ddarparu rhesymau clir a phendant dros osod sancsiwn penodol, gan gynnwys egluro perthnasedd unrhyw ffactorau lliniarol a gwaethygol.

25. Bydd pwyllgorau'n sicrhau bod y rhesymeg ar sancsiwn yn gyson â'i ganfyddiadau ar yr honiadau. Er enghraifft, os yw Pwyllgor yn canfod bod ymddygiad wedi bod yn barhaus ac yn debygol o gael ei ailadrodd, mae'n annhebygol y bydd yn gosod cerydd na fyddai'n cyfyngu ar ymarfer y ceiropractydd.

26. Bydd rhesymau'n mynd i'r afael â ph'un a yw'r sancsiwn a osodir yn is, neu'n uwch, na'r hyn a awgrymir gan y canllawiau hyn.

27. Os bydd y pwyllgor yn gorchymyn sancsiwn a fydd yn parhau ar waith am gyfnod penodol, bydd y penderfyniad ysgrifenedig hefyd yn cynnwys esboniad clir o pam y mae cyfnod penodol wedi'i ystyried yn angenrheidiol. Rhaid i'r penderfyniad ysgrifenedig nodi a ystyriodd y pwyllgor osod sancsiwn mwy cyfyngol a darparu rhesymau dros unrhyw gasgliad nad oedd angen sancsiwn mwy cyfyngol.

28. Rhaid i'r rhesymau grynhoi canfyddiadau'r pwyllgor ar y prif faterion pwysig yn yr achos, er mwyn galluogi'r ceiropractydd a'r cyhoedd i ddeall:

a) pam y dewiswyd sancsiwn penodol;
b) sut mae'n amddiffyn y cyhoedd;
c) pam mae hwnnw yw'r sancsiwn lleiaf sy'n angenrheidiol.

### Gorchmynion interim

29. Mae'n bosib y bydd y ceiropractydd wedi bod yn destun gorchymyn interim yn atal eu cofrestriad yn ystod ymchwiliad y GCC. Nid oes egwyddor (fel mewn achos troseddol os yw unigolyn yn cael ei gadw yn y ddalfa) bod rhaid didynnu amser a dreulir wedi'i atal o dan Orchymyn Atal Dros Dro Interim o hyd unrhyw ataliad a osodir wedyn gan y PCC neu'r HC mewn gwrandawiad. Fodd bynnag, dylai'r pwyllgor ystyried y gorchymyn interim a'i effaith ar y cofrestrydd wrth benderfynu a yw sancsiwn yn gymesur[5]. Ar ôl ystyried y mater hwnnw, mae gan y pwyllgor hawl i ddod i'r casgliad nad yw'r gorchymyn interim yn effeithio ar y gorchymyn cadarnhaol y mae angen ei osod.

## Y Sancsiynau Sydd ar Gael

### Trosolwg

30. Mae pedwar sancsiwn ar gael i'r PCC:

a) Ceryddu;
b) Gorchymyn Amodau Ymarfer;
c) Gorchymyn Atal Dros Dro;
d) Tynnu oddi ar y gofrestr.

31. Mae dau sancsiwn ar gael i'r HC:

a) Gorchymyn Amodau Ymarfer;
b) Gorchymyn Atal Dros Dro.

32. Ymdrinnir â phob un o'r sancsiynau hyn yn unigol yn yr adran hon.

33. Mae gan y ceiropractydd yr hawl i apelio i'r llysoedd o fewn 28 diwrnod yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y PCC. Nid yw'r sancsiwn yn dod i rym yn ystod y 28 diwrnod hyn nac, os cyflwynir apêl, nes bod yr apêl honno wedi'i phenderfynu. Yn ystod yr amser hwn, mae cofrestriad y ceiropractydd yn parhau i fod yn gwbl effeithiol oni bai bod y pwyllgor hefyd yn gorchymyn atal dros dro interim (gweler Ataliad Dros Dro Interim).

[5] Akhtar v Cyngor Deintyddol Cyffredinol [2017] EWHC 1986 (Gweinyddol)

## Cerydd

34. Y sancsiwn lleiaf cyfyngol y gall y PCC[6] ei gymhwyso yw cerydd, nad yw'n cyfyngu'n uniongyrchol ar allu ceiropractydd i ymarfer. Dim ond os yw'r pwyllgor wedi penderfynu nad oes risg i'r cyhoedd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymarfer y ceiropractydd gael ei gyfyngu y mae cerydd yn briodol.

35. Gallai cerydd fod yn briodol os:

a) mae'r honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol neu euogfarn droseddol ar ben isaf y sbectrwm difrifoldeb; ac
b) mae'r PCC eisiau nodi bod ymddygiad y ceiropractydd yn annerbyniol ac na ddylai ddigwydd eto.

36. Gellir ystyried ceryddon pan fydd y rhan fwyaf o'r ffactorau canlynol yn bresennol:

a) nid oedd yr ymddygiad wedi achosi ac ni allai fod wedi achosi niwed uniongyrchol nac anuniongyrchol i'r claf;
b) mae gan y ceiropractydd ddigon o fewnwelediad i'r materion a brofwyd;
c) roedd yr ymddygiad yn ddigwyddiad ynysig, nad oedd yn fwriadol;
d) mynegiant gwirioneddol o edifeirwch neu ymddiheuriad;
e) absenoldeb canfyddiadau rheoleiddiol blaenorol;
f) dim ailadrodd o'r ymddygiad ers y digwyddiad;
g) tystiolaeth bod camau adsefydlu neu gywirol effeithiol wedi'u cymryd.

37. Bydd PCCs yn egluro pam y mae cerydd yn cael ei ystyried yn gymesur, ac nad yw sancsiwn mwy difrifol yn cael ei ystyried yn angenrheidiol, gan ystyried unrhyw un o'r ffactorau a restrir uchod sy'n berthnasol.

38. Bydd cerydd yn seiliedig ar y canfyddiadau a wnaed gan y PCC, gan egluro pam na ddylid ailadrodd yr ymddygiad trwy gyfeirio at y Cod Ymarfer Proffesiynol.

39. Cyhoeddir cerydd yn erbyn cofnod y cofrestrydd yn y gofrestr am y cyfnod a bennir ym Mholisi Cyhoeddi a Datgelu'r GCC (cyfeirnod 3).

40. Os yw'r PCC o'r farn na fydd gosod cerydd yn ddigonol yn amgylchiadau'r achos, o ystyried yr amcan trosfwaol, rhaid iddo fynd ymlaen i ystyried gosod Gorchymyn Amodau Ymarfer ar gofrestriad y ceiropractydd (gweler Gorchymyn Amodau Ymarfer).

[6] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 22(4)(a) – Cyfeirnod 2

## Gorchymyn Amodau Ymarfer

41. Mae Gorchymyn Amodau Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceiropractydd gydymffurfio ag amodau penodol cyn y caniateir iddynt ailddechrau cofrestru heb gyfyngiadau. Gall y PCC osod gorchymyn o'r fath am gyfnod o hyd at dair blynedd yn y lle cyntaf, a gellir ei ymestyn neu ei ymestyn ymhellach am gyfnodau o hyd at dair blynedd wedi hynny mewn gwrandawiadau adolygu.

42. Prif nod amodau penodol yw amddiffyn cleifion rhag niwed, gan ganiatáu i'r ceiropractydd unioni unrhyw ddiffygion yn eu hymarfer a arweiniodd at ganfyddiad o anghymhwysedd proffesiynol neu UPC neu ddelio ag unrhyw broblemau iechyd (yn dibynnu ar natur yr honiad).

43. Lle mae'n cael ei osod gan y PCC, rhaid i Orchymyn Amodau Ymarfer nodi un neu'r ddau o'r canlynol:

a) y cyfnod y bydd y gorchymyn mewn grym;
b) prawf cymhwysedd y mae'n rhaid i'r ceiropractydd ei sefyll.[7]

44. Lle mae'n cael ei osod gan y PCC, bydd Gorchymyn Amodau Ymarfer yn dod i ben:

a) os pennir cyfnod yn y Gorchymyn, pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben;
b) os nad oes cyfnod wedi'i bennu ond bod prawf cymhwysedd wedi'i bennu, pan fydd y ceiropractydd yn pasio'r prawf; neu
c) os pennir cyfnod a phrawf, pa un bynnag yw'r diweddaraf o'r cyfnod sy'n dod i ben neu pan fydd y ceiropractydd yn pasio'r prawf.[8]

45. Rhaid gwneud amcanion unrhyw amodau o fewn Gorchymyn Amodau Ymarfer yn ddigon clir i'r:

a) ceiropractydd wybod beth a ddisgwylir ganddynt; a'r
b) pwyllgor mewn unrhyw wrandawiad adolygu yn y dyfodol allu deall diffygion gwreiddiol y ceiropractydd a'r camau penodol sydd eu hangen i'w cywiro.

46. Dim ond pan fydd yr amcanion wedi'u nodi'n glir y bydd modd gwerthuso a ydynt wedi'u cyflawni. Rhaid i unrhyw amodau fod:

a) yn benodol;
b) yn berthnasol ac yn briodol;
c) yn gymesur;
d) yn ymarferol;
e) yn fesuradwy.

47. Dylai pwyllgorau gyfeirio at Fanc Amodau GCC wrth benderfynu pa amodau i'w gosod mewn unrhyw achos penodol.

[7] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 22(5) – Cyfeirnod 2
[8] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 22(6) – Cyfeirnod 2

48. Cyn i'r pwyllgor benderfynu ar unrhyw amodau i'w gosod, bydd yn ystyried gwahodd unrhyw gyflwyniadau gan y GCC a'r ceiropractydd ynghylch a fydd yr amodau arfaethedig yn ymarferol ai peidio. Mae hyn yn debygol o fod yn arbennig o bwysig os yw'r pwyllgor yn bwriadu gosod amodau sy'n ei gwneud goruchwyliaeth yn y gweithle yn ofynnol. Gallai ceisio cyflwyniadau o'r fath olygu bod angen i'r pwyllgor ohirio am gyfnod byr er mwyn rhoi cyfle i'r GCC a'r ceiropractydd ystyried.

49. Rhaid i bwyllgorau ofalu i sicrhau nad yw'r amodau a osodir mor gyfyngol fel eu bod yn gyfystyr â Gorchymyn Atal Dros Dro. Mewn amgylchiadau lle nad yw pwyllgor yn gallu llunio amodau ymarferol sy'n amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol, mae'n debygol y bydd yn briodol ystyried Gorchymyn Atal Dros Dro yn lle hynny.

50. Gall Gorchymyn Amodau Ymarfer fod yn briodol pan fydd y rhan fwyaf neu'r cyfan o'r canlynol yn bresennol:

a) nid oes tystiolaeth o broblemau personoliaeth neu agwedd niweidiol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn;
b) mae meysydd adnabyddadwy o ymarfer ceiropractydd sydd angen eu hadolygu, eu hailhyfforddi neu eu hasesu;
c) mae tystiolaeth o barodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant ac asesiad pellach, a’r potensial i ymateb yn gadarnhaol iddynt (lle nad yw’r honiad yn ymwneud ag afiechyd yn unig);
d) mae gan y ceiropractydd fewnwelediad i unrhyw broblemau iechyd sy'n amharu'n ddifrifol ar eu gallu i ymarfer ac mae'n barod i gytuno i gydymffurfio ag amodau sy'n ymwneud â chyflwr meddygol, triniaeth a goruchwyliaeth;
e) ni fydd cleifion yn cael eu rhoi mewn perygl yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol o ganlyniad i barhau i gofrestru gydag amodau;
f) bydd yr amodau’n amddiffyn cleifion yn ystod y cyfnod y maent mewn grym;
g) mae'n bosibl llunio amodau priodol, ymarferol ac asesadwy i'w gosod ar gofrestru.

51. Os daw'r pwyllgor i'r casgliad nad yw'n ddigonol dod â'r achos i ben gyda Gorchymyn Amodau Ymarfer, bydd angen iddo symud ymlaen i ystyried gosod Gorchymyn Atal Dros Dro (gweler Atal Dros Dro).

### Adolygu Gorchymyn Amodau Ymarfer

52. O ystyried natur a phwrpas Gorchymyn Amodau Ymarfer, mae'n debygol y bydd unrhyw bwyllgor yn dymuno iddo gael ei adolygu cyn iddo ddod i ben. Mae hyn oherwydd y bydd y pwyllgor eisiau asesiad ynghylch a yw'r ceiropractydd yn addas i ailddechrau ymarfer heb gyfyngiad cyn i'r Gorchymyn ddod i ben. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n angenrheidiol i'r pwyllgor orchymyn cynnal gwrandawiad adolygu, fel y gall y pwyllgor asesu, yn ôl yr angen:

> a) a yw'r ceiropractydd yn gwerthfawrogi difrifoldeb yr ymddygiad yn llawn;
> b) nid yw'r ceiropractydd wedi ailadrodd yr ymddygiad;
> c) mae'r ceiropractydd wedi cynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth neu wedi cyrraedd lefel foddhaol o gymhwysedd;
> d) nad yw gallu'r ceiropractydd i ymarfer wedi'i amharu'n ddifrifol mwyach gan gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol;
> e) ni fydd cleifion mewn perygl oherwydd i'r ceiropractydd ailddechrau ymarfer heb gyfyngiadau neu ymarfer gydag amodau llai llym.

53. Wrth orchymyn adolygiad, bydd angen i'r amodau a osodir gan y pwyllgor sy'n gosod y Gorchymyn Amodau Ymarfer fod yn glir ynghylch pa dystiolaeth y disgwylir i gofrestrai ei darparu i ddangos cydymffurfiaeth â'r amodau. Bydd hyn o gymorth i'r pwyllgor sy'n delio â'r adolygiad ddeall pam y gosodwyd yr amodau penodol.

54. Os nad yw'r pwyllgor o'r farn bod angen gwrandawiad adolygu, dylai esbonio ei resymau'n glir yn ei benderfyniad.

55. Lle nad yw pwyllgor yn gorchymyn gwrandawiad adolygu, os yw newid mewn amgylchiadau yn arwain y GCC neu'r ceiropractydd i ystyried ei bod yn angenrheidiol adolygu'r sancsiwn, gallant ofyn i'r pwyllgor gynnal gwrandawiad adolygu ar unrhyw adeg cyn i'r gorchymyn ddod i ben. Gall rhesymau gwreiddiol y pwyllgor dros beidio â gorchymyn adolygiad fod yn berthnasol i unrhyw benderfyniad a wneir wedyn.

56. Lle mae gwrandawiad adolygu wedi'i orchymyn, ond bod amgylchiadau'n codi sy'n golygu bod y GCC neu'r ceiropractydd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cynnal gwrandawiad yn gynharach nag a drefnwyd, gallant ofyn am gynnal adolygiad cynnar.

57. Mae rhagor o fanylion am wrandawiadau adolygu a'r opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth adolygu sancsiwn (gweler Gwrandawiadau Adolygu).

## Atal Dros Dro

58. Mae Gorchymyn Atal Dros Dro yn cyfarwyddo'r Cofrestrydd i atal cofrestriad y ceiropractydd am gyfnod o hyd at dair blynedd. Mae hyn yn golygu na all y ceiropractydd ymarfer fel ceiropractydd cofrestredig tra bod y Gorchymyn Atal Dros Dro mewn grym.

59. Mae atal dros dro yn debygol o fod yn briodol ar gyfer UPC, anghymhwysedd proffesiynol neu euogfarn sy'n ddifrifol, ond nid mor ddifrifol fel ei bod yn cyfiawnhau tynnu oddi ar y gofrestr. Gellir defnyddio atal dros dro i anfon signal at y ceiropractydd, y proffesiwn a'r cyhoedd am yr hyn a ystyrir yn ymadawiad difrifol o'r safonau a ddisgwylir gan geiropractydd cofrestredig.

60. Gall PCC osod ataliad am hyd at dair blynedd. Rhaid i'r pwyllgor osod yr isafswm sy'n ofynnol i amddiffyn y cyhoedd, gan ystyried tair elfen yr amcan trosfwaol, yng nghyd-destun yr achos penodol.

61. Gall atal dros dro fod yn briodol mewn achos lle mae'r ceiropractydd yn peri risg o niwed i gleifion, ond lle mae tystiolaeth eu bod wedi ennill mewnwelediad i'r diffygion a bod potensial a pharodrwydd iddynt unioni eu diffygion. Bydd hyn yn cynnwys achosion lle nad yw Gorchymyn Amodau Ymarfer yn ddigonol naill ai i amddiffyn cleifion yn uniongyrchol neu i gyflawni elfennau eraill yr amcan trosfwaol sy'n ymwneud â chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn a chynnal safonau proffesiynol. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd y pwyllgor yn dymuno gosod cyfnod o atal dros dro a gwneud argymhellion ynghylch y dystiolaeth y gallai'r ceiropractydd fod eisiau ei chyflwyno i unrhyw wrandawiad adolygu yn y dyfodol; er enghraifft, tystiolaeth o hyfforddiant pellach.

62. Gall Gorchmynion Atal Dros Dro fod yn briodol pan fydd rhai neu'r cyfan o'r canlynol yn bresennol:

a) bu toriad difrifol o'r Cod Ymarfer Proffesiynol, ac er nad yw’r UPC na’r euogfarn dan sylw yn anghydnaws yn sylfaenol â chofrestriad parhaol, mae’r toriad mor ddifrifol fel na fyddai unrhyw sancsiwn is nac atal dros dro yn ddigonol i gyflawni’r amcan trosfwaol;
b) mae'r achos yn ymwneud ag anghymhwysedd proffesiynol lle mae risg i ddiogelwch cleifion os na chaiff cofrestriad y ceiropractydd ei atal;
c) mae'r ceiropractydd yn dangos potensial a pharodrwydd i unioni eu diffygion a'u methiannau;
d) nid oes tystiolaeth o broblemau personoliaeth neu agwedd niweidiol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn;
e) nid oes tystiolaeth o ailadrodd ymddygiad tebyg ers y digwyddiad;
f) mae'r pwyllgor yn fodlon bod gan y ceiropractydd fewnwelediad ac nad yw'n peri risg sylweddol o ailadrodd yr ymddygiad.

63. Bydd atal dros dro o'r gofrestr yn cael effaith gosbol, gan ei fod yn atal ceiropractydd rhag ymarfer fel ceiropractydd cofrestredig yn ystod cyfnod y gorchymyn. Fodd bynnag, os yw'r pwyllgor yn penderfynu mai atal dros dro yw'r sancsiwn cymesur i

gyflawni'r amcan statudol trosfwaol, gan gynnwys cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, yna rhaid iddo osod y sancsiwn hwnnw.

64. Os daw'r PCC i'r casgliad nad yw'n ddigonol dod â'r achos i ben gydag ataliad dros dro, bydd angen iddo ystyried tynnu enw'r ceiropractydd oddi ar y gofrestr (gweler Tynnu oddi ar y Gofrestr).

**Adolygu Gorchymyn Atal Dros Dro**

65. Mewn rhai achosion – er enghraifft y rhai lle mae mewnwelediad datblygedig iawn, edifeirwch, unioni priodol, dim risg i'r cyhoedd a dim risg o ailadrodd – gall fod yn amlwg, yn dilyn cyfnod o atal, na fyddai angen cynnal adolygiad o'r gorchymyn.

66. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion lle gosodir cyfnod o atal bydd angen sicrhau'r pwyllgor bod y ceiropractydd yn addas i ailddechrau ymarfer – naill ai heb gyfyngiadau neu gydag amodau – ar ôl i'r Gorchymyn ddod i ben. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n angenrheidiol i'r pwyllgor orchymyn cynnal gwrandawiad adolygu fel y gall y pwyllgor asesu, yn ôl yr angen:

a) a yw'r ceiropractydd yn gwerthfawrogi difrifoldeb eu hymddygiad yn llawn;
b) nid yw'r ceiropractydd wedi ailadrodd yr ymddygiad;
c) mae'r ceiropractydd wedi cynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth neu wedi cyrraedd lefel foddhaol o gymhwysedd;
d) nad yw gallu'r ceiropractydd i ymarfer wedi'i amharu'n ddifrifol mwyach gan gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol;
e) ni fydd cleifion yn cael eu rhoi mewn perygl drwy ailddechrau ymarfer heb gyfyngiadau na thrwy osod cofrestru amodol.

67. Efallai y bydd y pwyllgor sy'n gosod y Gorchymyn Atal Dros Dro yn dymuno rhoi syniad i'r cofrestrydd o'r math o dystiolaeth y gallai fod o gymorth i'r pwyllgor sy'n cynnal yr adolygiad, er enghraifft wrth asesu mewnwelediad ac unioni.

68. Os nad yw'r pwyllgor o'r farn bod angen gwrandawiad adolygu, dylai esbonio ei resymau'n glir yn ei benderfyniad.

69. Lle nad yw pwyllgor yn gorchymyn gwrandawiad adolygu, os yw newid mewn amgylchiadau yn arwain y GCC neu'r ceiropractydd i ystyried ei bod yn angenrheidiol adolygu'r sancsiwn, gallant ofyn i'r pwyllgor gynnal gwrandawiad adolygu ar unrhyw adeg cyn i'r gorchymyn ddod i ben. Gall rhesymau'r pwyllgor dros beidio â chyfarwyddo adolygiad fod yn ddefnyddiol wrth lywio unrhyw benderfyniad.

70. Lle mae gwrandawiad adolygu wedi'i orchymyn, ond bod amgylchiadau'n codi sy'n golygu bod y GCC neu'r ceiropractydd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cynnal gwrandawiad yn gynharach nag a drefnwyd, gallant ofyn am gynnal adolygiad cynnar.

71. Mae rhagor o fanylion am wrandawiadau adolygu a'r opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth adolygu sancsiwn (gweler Gwrandawiadau Adolygu).

**Gorchymyn Atal Dros Dro Interim**

72. Mewn achosion lle mae'r PCC yn penderfynu gosod Gorchymyn Atal Dros Dro, bydd y pwyllgor yn ystyried a oes angen gosod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim i amddiffyn aelodau'r cyhoedd yn ystod y cyfnod hyd nes y daw'r Gorchymyn Atal Dros Dro i rym[9]. Nid yw Gorchymyn Atal Dros Dro yn dod i rym am 28 diwrnod ac, os cyflwynir apêl, nid tan y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar yr apêl, ac yn ystod y cyfnod hwnnw byddai'r ceiropractydd yn aros ar y gofrestr ac yn gallu ymarfer, os nad yw Gorchymyn Atal Dros Dro Interim wedi'i osod hefyd.

73. Mae manylion pellach ar Orchmynion Atal dros Dro Interim isod (gweler Atal Dros Dro Interim).

## Tynnu oddi ar y gofrestr

74. Mae'r sancsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cofrestrydd dynnu enw'r ceiropractydd oddi ar y gofrestr, gan wahardd yr unigolyn hwnnw rhag gweithio fel ceiropractydd yn y DU. Gall tynnu oddi ar y gofrestr fod yn angenrheidiol pan fydd yr ymddygiad yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

a) gwyriad difrifol iawn o'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer Proffesiynol lle ystyrir bod yr ymddygiad yn anghydnaws yn sylfaenol â bod yn geiropractydd;
b) diystyrwch dibris o'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer Proffesiynol ac o ddiogelwch cleifion;
c) gwneud niwed difrifol i eraill (cleifion neu fel arall), naill ai'n fwriadol neu drwy anghymhwysedd; yn enwedig lle mae risg barhaus i gleifion (gweler Methu â Darparu Lefel Dderbyniol o Driniaeth neu Ofal);
d) camddefnyddio swydd o ymddiriedaeth;
e) torri hawliau claf neu gamfanteisio ar bobl agored i niwed;
f) camymddwyn rhywiol, gan gynnwys ymwneud ag ecsbloetio plant yn rhywiol (gweler Camymddwyn rhywiol);
g) troseddau sy'n cynnwys trais difrifol sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar;
h) anonestrwydd, yn enwedig pan gaiff ei wadu, ei barhau neu ei guddio (gweler Anonestrwydd);
i) ymddwyn heb uniondeb;
j) camddefnyddio safle proffesiynol;
k) diffyg mewnwelediad parhaus i ddifrifoldeb eu gweithredoedd neu'r canlyniadau;
l) gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn seiliedig ar nodwedd warchodedig.[10]

[9] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 24(2) – Cyfeirnod 2
[10] Mae Adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio nodweddion gwarchodedig fel: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Gorchymyn Atal Dros Dro Interim**

75. Mewn achosion lle mae'r PCC yn penderfynu tynnu ceiropractydd oddi ar y gofrestr, bydd yn ystyried a oes angen gosod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim er mwyn amddiffyn aelodau'r cyhoedd yn ystod y cyfnod cyn i'r tynnu ddod i rym. Nid yw Gorchymyn Tynnu yn dod i rym am 28 diwrnod ac, os gwneir apêl, nid tan y bydd yr apêl wedi'i phenderfynu, ac yn ystod y cyfnod hwnnw byddai'r ceiropractydd yn aros ar y gofrestr ac yn gallu ymarfer.

76. Mae manylion pellach ar Orchmynion Atal dros Dro Interim isod (gweler Atal Dros Dro Interim)

# Ffactorau a Thystiolaeth

77. Bydd angen i bwyllgorau ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth wneud penderfyniad ynghylch pa sancsiwn i'w osod. Yn hanfodol i'r penderfyniad hwnnw fydd y canfyddiadau a wneir gan y pwyllgor a rhaid iddo sicrhau bod ei benderfyniad ar sancsiwn yn gyson â'r rheini. Mae'r adran hon o'r canllawiau yn amlinellu rhai o'r ffactorau a'r dystiolaeth y bydd angen i bwyllgor eu hystyried yn gyffredin.

## Niwed a achoswyd neu risg o niwed

78. Un o'r ystyriaethau allweddol yw maint y risg a achoswyd i'r cyhoedd. Gall hynny fod yn amlwg o faint y risg a achoswyd gan ymddygiad y ceiropractydd. Fodd bynnag, gall y risg o niwed a achoswyd gan eu hymddygiad fod yr un mor bwysig â graddfa unrhyw niwed gwirioneddol a achoswyd. Mae hyn oherwydd gallai ymddwyn yn yr un ffordd eto arwain at niwed gwirioneddol.

79. Gall niwed gymryd sawl ffurf, er enghraifft, gall fod yn gorfforol, yn seicolegol, yn emosiynol neu'n ariannol.

80. Mewn rhai achosion, gall fod yn berthnasol i bwyllgor ystyried i ba raddau y gallai ac y dylai'r ceiropractydd fod wedi rhagweld graddfa'r risg.

## Ailadrodd

81. Dylai pwyllgorau ystyried i ba raddau y mae risg y bydd yr ymddygiad yn cael ei ailadrodd.

82. Mae risg o ailadrodd yn debygol o gynyddu difrifoldeb yr achos gan y bydd fel arfer yn golygu bod risg fwy o niwed yn cael ei achosi.

83. Lle mae'r pwyllgor wedi canfod bod ymddygiad sy'n cynrychioli gwyriad o'r safonau disgwyliedig wedi digwydd ar sawl achlysur, yn hytrach na bod yr ymddygiad yn ddigwyddiad ynysig, gall ddod i'r casgliad bod risg uwch o ailadrodd yn y dyfodol.

## Mewnwelediad ac unioni

84. Mae mewnwelediad ac unioni wedi'u cysylltu'n agos ag ailadrodd. Fodd bynnag, bydd rhai achosion lle mae gan yr ymddygiad effaith mor sylweddol ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn fel hyd yn oed os yw'r ceiropractydd wedi dangos mewnwelediad ac wedi ceisio unioni, mae angen sancsiwn difrifol serch hynny.

### Mewnwelediad

85. Bydd pwyllgorau'n ystyried tystiolaeth o fewnwelediad ac yn asesu graddfa'r mewnwelediad. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr hyn sydd wedi digwydd ers i'r ymddygiad ddigwydd ac ymateb y ceiropractydd i'r pryderon.

86. Gall mewnwelediad fod yn bresennol pan all ceiropractydd ddangos eu bod yn deall pam y cododd yr ymddygiad a'r camau sydd eu hangen i atal yr un peth rhag digwydd eto.

87. Gellir darparu tystiolaeth o fewnwelediad trwy fyfyrdodau ysgrifenedig y ceiropractydd neu gallant ddarparu tystiolaeth lafar. Bydd darparu tystiolaeth lafar yn caniatáu i'r pwyllgor ofyn cwestiynau i'r ceiropractydd a phrofi eu gradd o fewnwelediad ymhellach.

88. Mewn achosion iechyd, gellir dangos mewnwelediad trwy geisio cefnogaeth briodol ar gyfer cyflwr a rhoi unrhyw gamau angenrheidiol ar waith yn wirfoddol i amddiffyn cleifion.

89. Bydd pwyllgorau'n ystyried pryd y datblygodd mewnwelediad. Pan dderbynnir pryderon yn gynnar, neu hyd yn oed pan ellir dangos mewnwelediad cyn atgyfeirio'r pryderon at y GCC, gall pwyllgor roi mwy o bwyslais na lle y mae mewnwelediad yn codi ar ôl i ganfyddiadau anffafriol gael eu gwneud.

90. Gall mewnwelediad hefyd fod yn fater o raddau. Gall ceiropractydd gael mwy o fewnwelediad, ond efallai na fydd yn gyflawn.

91. Gall pwyllgor ddod i'r casgliad nad oes gan geiropractydd fewnwelediad neu nad oes ganddynt fewnwelediad gwirioneddol lle:

a) mae ymddygiad wedi cael ei ailadrodd;
b) mae difrifoldeb neu arwyddocâd yr ymddygiad wedi’i leihau neu mae eraill yn cael eu beio am yr ymddygiad;
c) methu â chydweithredu ag ymchwiliad y GCC i'r pryderon.

92. Bydd pwyllgorau'n ystyried unrhyw fynegiadau o edifeirwch gan y ceiropractydd. Fodd bynnag, byddant yn ymwybodol nad yw mynegiant o edifeirwch neu ymddiheuriad o reidrwydd yn dangos mewnwelediad.

93. Dylai pwyllgorau fod yn ymwybodol y gall gwahanol ymarferwyr fynegi mewnwelediad neu edifeirwch mewn gwahanol ffyrdd. Mae astudiaethau cyfathrebu trawsddiwylliannol yn dangos bod gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae pobl o wahanol ddiwylliannau a grwpiau iaith yn defnyddio iaith a signalau di-eiriau i ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud ac i fynegi eu hunain. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd unigolion yn defnyddio ail iaith. Dylai pwyllgorau hefyd ystyried unrhyw dystiolaeth arbenigol annibynnol a gyflwynir gan ymarferydd sy'n sefydlu bod ganddynt gyflwr iechyd penodol sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn mynegi edifeirwch. Mae ymwybyddiaeth o a sensitifrwydd i'r materion hyn yn bwysig wrth ystyried ac asesu graddfa'r mewnwelediad neu'r edifeirwch a ddangosir.

**Unioni**

94. Yn gyffredinol, ni fydd unioni yn bosibl oni bai bod gan geiropractydd fewnweledìad; oni bai eu bod yn deall sut y cododd y pryderon, bydd yn anodd iddynt fynd i'r afael ag achos y pryderon.

95. Bydd pwyllgorau'n ystyried a ellir unioni'r ymddygiad ac, os felly, a yw wedi'i unioni. Os yw'r ymddygiad wedi'i unioni, gall y pwyllgor ddod i'r casgliad bod risg is o ailadrodd.

96. Mewn achosion o anghymhwysedd proffesiynol, gellir dangos adferiad trwy gwblhau dysgu neu hyfforddiant sy'n ymwneud â'r pryderon yn llwyddiannus.

97. Mae tystiolaeth o unioni sy'n annibynnol yn debygol o fod yn fwy pwysig na datganiadau personol. Gallai tystiolaeth annibynnol gynnwys:

a) tystysgrifau o gyrsiau hyfforddi;
b) adroddiadau gan geiropractydd arall;
c) adroddiadau meddygol.

## Pryderon rheoleiddio blaenorol

98. Gall pwyllgor ystyried pryderon rheoleiddio blaenorol lle mae'n eu hystyried yn berthnasol.

99. Gallai pryderon rheoleiddiol blaenorol fod ar ffurf:

a) canfyddiadau anffafriol gan PCC neu HC;
b) canfyddiadau anffafriol gan reoleiddiwr arall;
c) euogfarn gan lys yn y DU neu rywle arall;
d) derbyn rhybudd.

100. Mae'n debygol y bydd pryderon rheoleiddio blaenorol yn cael eu hystyried yn berthnasol lle mae'r ceiropractydd wedi ymgymryd ag ymddygiad tebyg i'r hyn sy'n cael ei ystyried gan y pwyllgor. Gall pryderon o'r fath ddangos risg uwch o ailadrodd, diffyg mewnwelediad neu analluu i ddysgu o fethiannau blaenorol.

101. Lle mae'r ymddygiad sy'n cael ei ystyried gan y pwyllgor wedi digwydd pan oedd y ceiropractydd yn destun sancsiwn arall, er enghraifft cael eu heuogfarnu o drosedd tra'n destun Gorchymyn Amodau Ymarfer yn dilyn canfyddiad o UPC, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei ystyried yn ddifrifol.

## Geirdaon a thystlythyrau

102. Mae'n bosib y bydd tystiolaeth gadarnhaol ynghylch diffyg tueddiad y ceiropractydd i gyflawni'r gweithredoedd honedig wedi'i chyflwyno yng nghyfnod canfod ffeithiau'r gwrandawiad. Yn ystod y cam pan fydd y pwyllgor yn ystyried sancsiwn, gellir cyflwyno tystlythyrau lliniaru personol hefyd, er enghraifft ynghylch safle'r ceiropractydd yn y gymuned neu'r proffesiwn. Dylai'r pwyllgor ystyried y pwysau i'w roi ar y rhain.

103. Dylai'r pwyllgor ystyried:

a) pwy yw awdur unrhyw eirda neu dystlythyr a natur eu perthynas â'r ceiropractydd (er enghraifft, os ydynt yn gyflogwr presennol neu gyn-gyflogwr), natur a graddfa eu profiad o'r ceiropractydd;
b) pryd ysgrifennwyd y geirda neu'r tystlythyr;
c) sut y gofynnwyd amdano;
d) a oedd yr awdur yn ymwybodol o'r achos a'r honiadau;
e) a yw'r geirda neu'r tystlythyr yn ymddangos yn ddilys (er enghraifft, a yw wedi'i lofnodi); a
f) a yw'r geirda neu'r tystlythyr yn berthnasol i'r canfyddiadau penodol a wnaed gan y pwyllgor yn erbyn y ceiropractydd.

104. Mae'n bosib y bydd pwyllgor am roi mwy o bwyslais ar eirda neu dystlythyr os yw'n cadarnhau bod yr awdur yn fodlon mynychu'r achos i ateb cwestiynau. Ychydig o bwysau y dylid ei roi i dystlythyr lle nad yw'n glir bod yr awdur yn ymwybodol o achos y GCC.

105. Bydd maint, ansawdd a lledaeniad geirdaon a thystlythyrau yn amrywio o achos i achos ac ni fydd hyn o reidrwydd yn dibynnu ar safle'r ceiropractydd. Dylai pwyllgorau gofio y gallai fod rhesymau diwylliannol neu resymau eraill pam nad yw ceiropractydd eisiau ceisio tystlythyrau. Er enghraifft, gallai rhannu gwybodaeth am ymchwiliad gydag aelodau teulu cydweithwyr effeithio ar eu bywydau preifat, er enghraifft o ran eu henw da gyda'u teulu a'u cymuned. Ni ddylai pwyllgor ddod i gasgliadau anffafriol os na chyflwynir unrhyw eirdaon na thystlythyrau.

# Ffactorau lliniarol a gwaethygol

## Ffactorau lliniarol

106. Wrth benderfynu ar sancsiwn, bydd angen i'r pwyllgor ystyried unrhyw dystiolaeth a gyflwynir fel lliniariad gan y ceiropractydd, neu y mae'n ei nodi fel lliniariad perthnasol.

107. Mater i farn y pwyllgor yw'r pwysau, os o gwbl, y dylid ei roi ar unrhyw liniaru penodol. Rhaid iddo gael yr amcan trosfwaol ym mlaen ei feddwl wrth ystyried perthnasedd unrhyw liniaru a'r pwysau, os o gwbl, i'w roi arno.

108. Mae rhai achosion lle, waeth beth fo'r lliniaru a gyflwynir, mae methiannau ceiropractydd mor ddifrifol neu barhaus fel bod angen sancsiwn penodol er mwyn cynnal safonau a chynnal hyder y cyhoedd.

109. Bydd pwyllgorau'n ymwybodol, gan nad ydynt yn ymwneud â materion cosb, fod ystyriaethau a fyddai fel arfer yn pwyso wrth liniaru cosb mewn llys troseddol yn debygol o fod yn llai perthnasol mewn achosion rheoleiddio.

110. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ffactorau lliniarol:

a) tystiolaeth o raddau dealltwriaeth a mewnwelediad y ceiropractydd i'r broblem a'u hymdrechion i fynd i'r afael â hi a'i hunioni;
b) tystiolaeth o unioni;
c) tystiolaeth o gydymffurfiaeth gyffredinol y ceiropractydd ag egwyddorion pwysig arfer da (er enghraifft, cadw'n gyfredol a gweithio o fewn eu maes ymarfer) a'i gymhwysedd cyffredinol;
d) lliniaru personol, gan gynnwys:
   - cyfnodau o salwch;
   - caledi personol ac ariannol;
   - absenoldeb canfyddiadau rheoleiddio blaenorol.
e) lle bo'n berthnasol i'r pryderon, ffactorau cyd-destunol megis:
   - lefel profiad y ceiropractydd ar y pryd;
   - unrhyw dystiolaeth o broblemau systemig ehangach yn y gweithle.

111. Mewn rhai achosion, gall cam gyrfa'r ceiropractydd fod yn ffactor lliniarol; er enghraifft, oherwydd bod y ceiropractydd yn ddibrofiad iawn ar adeg digwyddiadau perthnasol ond wedi hynny mae wedi gallu myfyrio ar sut y gallent fod wedi gwneud pethau'n wahanol, gyda budd profiad. Mewn achosion eraill, er enghraifft y rhai sy'n cynnwys ymddygiad rheibus neu anonestrwydd difrifol, mae'n annhebygol y bydd cam gyrfa'r ceiropractydd yn cael ei ystyried yn lliniaru.

112. Bydd pwyllgorau'n ymwybodol na ddylid trin absenoldeb yr hyn a fyddai fel arall yn ffactor gwaethygol fel ffactor lliniarol.[11]

## Ffactorau gwaethygol

113. Dylai'r pwyllgor ystyried unrhyw ffactorau gwaethygol a gyflwynir iddo, neu a nodir ganddo, gan gadw'r amcan trosfwaol ym mlaen ei feddwl.

114. Gallai ffactorau gwaethygol gynnwys:

a) canfyddiadau rheoleiddio blaenorol;
b) camddefnyddio swydd o ymddiriedaeth;
c) diffyg mewnwelediad;
d) niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i gleifion (neu ymddygiad a allai achosi niwed yn rhagweladwy); a
e) phatrwm o UPC dros amser;
f) gwahaniaethu ar sail nodwedd warchodedig.

[11] Awdurdod Safonau Proffesiynol v (1) Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; (2) Barn [2017] EWHC 817 (Gweinyddol)

# Categorïau penodol o achosion

115. Mae rhai categorïau o achosion lle mae ystyriaethau penodol yn codi a lle mae'n debygol y bydd angen cymryd camau mwy difrifol. Mae'r adran hon o'r canllawiau'n mynd i'r afael â hwy.

## Euogfarnau

116. Mae 'euogfarn' yn golygu canfyddiad o euogrwydd o drosedd gan lys unrhyw le yn y byd. Oni bai bod PCC yn ystyried nad oes gan euogfarn unrhyw berthnasedd i ymarfer ceiropractydd, bydd yn sail i bwyllgor osod sancsiwn. Mae hyn yn wir p'un a ddigwyddodd y drosedd yng nghyd-destun bywyd proffesiynol neu breifat y ceiropractydd.

117. Nid yw rhybuddion a hysbysiadau cosb a weinyddir gan yr heddlu neu awdurdodau gorfodi eraill yn gyfystyr ag euogfarnau. Fodd bynnag, gallant fod yn gyfystyr â UPC.

118. Os bydd y PCC yn derbyn tystysgrif wedi'i llofnodi o'r euogfarn fel tystiolaeth, yna rhaid iddo dderbyn y dystysgrif fel tystiolaeth bendant bod y drosedd wedi'i chyflawni, oni bai ei fod hefyd yn derbyn tystiolaeth i'r perwyl nad y ceiropractydd yw'r person y cyfeirir ato yn yr euogfarn.[12]

119. Yn yr achosion hyn, pwrpas a ffocws yr achos yw:

a) sefydlu a oes gan yr euogfarn berthnasedd sylweddol i addasrwydd y ceiropractydd i ymarfer ceiropracteg;
b) ystyried difrifoldeb y drosedd; a
c) rhoi sylw dyledus i unrhyw amgylchiadau lliniarol a gwaethygol.

120. Gall y PCC benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas ag euogfarn os yw'n ystyried nad oes gan yr euogfarn unrhyw berthnasedd materol i addasrwydd y ceiropractydd i ymarfer.[13] Fodd bynnag, gall y pwyllgor benderfynu gosod sancsiwn hyd yn oed lle digwyddodd yr euogfarn ym mywyd preifat y ceiropractydd, yn hytrach nag yn ystod eu hymarfer proffesiynol, gan y gallai euogfarnau o'r fath effeithio ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

121. Ni all y pwyllgor geisio 'mynd y tu ôl' i'r euogfarn na dod i gasgliad arall am y materion a arweiniodd at ei chyhoeddi. Mewn gwrandawiad am euogfarn, gwahoddir cyflwynydd achos y GCC i gyflwyno tystiolaeth am yr amgylchiadau a arweiniodd at yr euogfarn a chymeriad a hanes blaenorol y ceiropractydd ymatebol. Yna bydd gan y ceiropractydd y cyfle i annerch y pwyllgor i liniaru a chyflwyno unrhyw dystiolaeth.

[12] Rheol 7(1) Rheolau'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol) 2000.
[13] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 22(3) – Cyfeirnod 2

122. Dylai PCCs gofio y bydd ystyriaethau gwahanol yn berthnasol i'r llys troseddol wrth osod dedfryd am y drosedd. Er enghraifft, efallai bod lliniaru personol penodol a arweiniodd y llys at ei benderfyniad ar ddedfryd sydd, yng nghyd-destun rheoleiddio, yn cario llai o bwysau oherwydd yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Fodd bynnag, gall pwyllgorau ystyried sylwadau a wneir mewn sylwadau dedfrydu lle mae'r sylwadau hynny'n berthnasol i'w benderfyniad ar sancsiwn.

123. Pan fydd ceiropractydd wedi cael eu heuogfarnu o drosedd ddifrifol, ni fydd yn gyffredinol yn gyson â'r amcan trosfwaol iddynt ddychwelyd i ymarfer heb gyfyngiadau nes iddynt gwblhau eu dedfryd droseddol. Fodd bynnag, rhaid i PCC sicrhau bob amser bod y sancsiwn y mae'n ei osod yn gyfiawn, yn gymesur a dim ond yr hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan trosfwaol, gan gynnwys cynnal hyder y cyhoedd.

## Camymddwyn Rhywiol

124. Mae camymddwyn rhywiol yn cwmpasu ystod eang o ymddygiad, a all gynnwys:

a) euogfarnau troseddol am droseddau rhywiol (gan gynnwys camfanteisio rhywiol ar blant);
b) aflonyddu rhywiol;
c) ceisio perthynas rhywiol amhriodol.

125. Dylai'r PCC ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer Proffesiynol.

**Egwyddor E:**

Rhaid i chi sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol clir

Fel ceiropractydd rhaid i chi

**Safon E1:**

cydnabod yr anghydbwysedd pŵer a ddaw o fod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Rhaid i chi beidio â chamddefnyddio'r safle o bŵer ac ymddiriedaeth sydd gennych fel gweithiwr proffesiynol. Rhaid i chi beidio â dilyn neu annog perthnasoedd ariannol, emosiynol neu bersonol amhriodol. Rhaid i chi beidio â chroesi unrhyw ffin broffesiynol: mae hyn yn cynnwys ffiniau rhywiol.

126. Mae'n debygol y bydd camddefnyddio swydd broffesiynol i geisio perthynas rywiol yn cael ei ystyried yn ddifrifol. Cyfrifoldeb y ceiropractydd yw atal ffiniau rhywiol rhag cael eu croesi, nid cyfrifoldeb y claf.

127. Mae ymddygiad sy'n arwain at roi ceiropractydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw hefyd yn debygol o gael ei ystyried yn arbennig o ddifrifol a gall fod yn anghydnaws ag unrhyw fath o ymarfer.

128. Mewn achosion o gamymddwyn rhywiol difrifol, mae'n debygol iawn mai'r unig sancsiwn cymesur fydd tynnu oddi ar y gofrestr. Mae hyn oherwydd bod ymddygiad o'r fath yn debygol o danseilio ymddiriedaeth a hyder yn y proffesiwn yn ddifrifol. Fodd bynnag, bydd pob achos yn cael ei ystyried ar ei ffeithiau ei hun. Os bydd PCC yn penderfynu gosod sancsiwn heblaw tynnu oddi ar y gofrestr, bydd angen iddo esbonio'r penderfyniad hwnnw yn llawn.

## Anonestrwydd

129. Mae anonestrwydd, hyd yn oed pan nad yw'n arwain at niwed uniongyrchol i gleifion, yn arbennig o ddifrifol oherwydd gall danseilio'n sylweddol yr ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd yn ei rhoi yn y proffesiwn. Mae hyn yn cynnwys anonestrwydd sy'n digwydd yn gyfan gwbl y tu allan i'r berthynas rhwng y ceiropractydd a'r claf; er enghraifft rhoi datganiadau ffug neu wneud hawliadau twyllodrus am arian.

130. Dylai'r PCC ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer Proffesiynol.

### Egwyddor C:

Rhaid i chi weithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb a chynnal y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a phersonol.

### Safon C9:

bod yn onest, yn deg ac yn dryloyw wrth eich busnes. Ni ddylai unrhyw fuddiant personol, ariannol neu fasnachol ragfarnu eich barn glinigol. Rhaid i chi beidio â gofyn am, derbyn, neu gynnig unrhyw gymhelliant a allai niweidio gofal claf.

### Safon C11:

cyflawni'r ddyletswydd o ddidwylledd drwy fod yn agored ac yn onest gyda'r claf. Dweud wrtho os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'i ofal sy'n achosi, neu a allai achosi, niwed neu ofid. Rhaid i chi gynnig ymddiheuriad, rwymedi neu gymorth addas, ac esboniad o gamau canlyniadol.

### Safon A2:

dangos parch, trugaredd a gofal i'r claf. Rhaid i chi ddarganfod beth sy'n bwysig iddo ac ystyried ei anghenion a'i ddewisiadau. Rhaid i chi ymateb yn onest ac yn agored i'w gwestiynau a pheidio â rhoi pwysau ar y claf i dderbyn eich cyngor.

### Safon D15:

sicrhau, wrth hyrwyddo neu gynnal ymchwil neu ddefnyddio ymchwil yn ymarferol, eich bod yn gwneud hynny yn foesegol ac yn effeithiol.

131. Gallai enghreifftiau o anonestrwydd mewn ymarfer proffesiynol gynnwys:

a) twyllo partner yn y practis;
b) ffugio neu ddiwygio cofnodion cleifion yn amhriodol;
c) cyflwyno neu ddarparu geirdaon ffug, neu wybodaeth anghywir neu gamarweiniol ar CV;
d) methu â chymryd camau rhesymol i sicrhau bod datganiadau a wneir mewn dogfennau ffurfiol yn gywir;
e) darparu gwybodaeth anghywir i'r GCC neu unrhyw reoleiddiwr arall (er enghraifft, peidio â datgelu euogfarn droseddol pan fo angen gwneud hynny);
f) anonestrwydd yng nghyd-destun cynnal ymchwil, gan fod ganddo'r potensial i gael canlyniadau pellgyrhaeddol (gallai hyn fod ar ffurf cyflwyno gwybodaeth gamarweiniol mewn cyhoeddiadau) a allai danseilio'r ymddiriedaeth a'r hyder sydd gan y cyhoedd mewn ceiropracteg fel gwyddor.

132. Yr achosion mwyaf difrifol o anonestrwydd mewn ymarfer proffesiynol yw'r rhai sydd naill ai'n niweidio cleifion yn uniongyrchol neu sydd â'r potensial i roi cleifion mewn perygl o niwed.

133. Mae anonestrwydd yng nghyd-destun ymchwil yn arbennig o ddifrifol gan fod ganddo'r potensial i gael canlyniadau pellgyrhaeddol. Mae camymddygiad ymchwil yn amrywio o gyflwyno gwybodaeth gamarweiniol mewn cyhoeddiadau i anonestrwydd mewn treialon clinigol. Mae'r ymddygiad hwn yn tanseilio'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd a'r proffesiwn mewn ceiropracteg fel gwyddor, boed hyn yn arwain at niwed uniongyrchol i gleifion unigol ai peidio.

134. Mae anonestrwydd yng nghyd-destun bywyd preifat ceiropractydd yn dal yn debygol o gael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Gallai enghraifft fod yn euogfarn droseddol am dwyll.

135. Mae ffactorau y gallai'r PCC fod eisiau eu hystyried wrth asesu'r ymddygiad anonest yn cynnwys:

a) hyd unrhyw anonestrwydd;
b) a oedd yr anonestrwydd yn achos ynysig neu a oedd yn rhan o batrwm ymddygiad;
c) a gyfaddefwyd yr anonestrwydd ac, os felly, a oedd hynny ar y cyfle cyntaf neu a guddiwyd yr anonestrwydd am gyfnod;
d) a oedd yr anonestrwydd er budd personol.

136. Gallai ymddygiad anonest fod yn anos ei unioni. Ni all tystiolaeth o gymhwysedd proffesiynol liniaru anonestrwydd difrifol neu barhaus. Mae ymddwyn yn anonest yn niweidiol iawn i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn ceiropracteg. Felly mae'n debygol y bydd yn cyfiawnhau sancsiwn mwy difrifol a bydd angen i PCC ystyried yn ofalus a yw sancsiwn heblaw am dynnu oddi ar y gofrestr yn gymesur.

### Methu â darparu lefel dderbyniol o driniaeth neu ofal

137. Dylai'r PCC ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer Proffesiynol.

> **Egwyddor A:**
>
> Rhaid i chi flaenoriaethu budd cleifion

> **Egwyddor D:**
>
> Rhaid i chi ddarparu safon dda o ofal clinigol ac ymarfer proffesiynol

Mae pwyllgorau'n debygol o ystyried bod unrhyw achos lle mae'r ceiropractydd yn dangos diystyrwch dibris o ddiogelwch cleifion neu lle mae toriad o ddyletswydd sylfaenol ceiropractyddion i amddiffyn y claf rhag niwed yn arbennig o ddifrifol.

138. Ystyriaeth arbennig o bwysig mewn achosion o'r fath yw a oes gan geiropractydd, neu a oes ganddo'r potensial, i ddatblygu mewnwelediad i'r methiannau hyn ai peidio. Os nad yw hyn yn amlwg, mae'n debygol na fydd Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal Dros Dro yn ddigonol.

## Gwrandawiadau adolygu

139. Fel y nodir uchod (gweler Gorchymyn Amodau Ymarfer ac Atal Dros Dro), pan fydd pwyllgor yn penderfynu bod cyfnod cofrestru gydag amodau neu atal dros dro yn briodol, bydd fel arfer yn gorchymyn cynnal gwrandawiad adolygu, oherwydd bydd y pwyllgor am sicrhau bod y ceiropractydd yn addas i ailddechrau ymarfer cyn i'r gorchymyn ddod i ben.

140. Lle mae adolygiad wedi'i gyfarwyddo, mae'n bwysig na ddylid caniatáu i unrhyw geiropractydd ailddechrau ymarfer heb gyfyngiadau yn dilyn cyfnod o gofrestru amodol neu atal dros dro oni bai bod y pwyllgor yn ystyried ei fod yn ddiogel gwneud hynny. Bydd angen sicrhau'r pwyllgor bod y ceiropractydd yn addas i ailddechrau ymarfer naill ai heb gyfyngiadau, neu gydag amodau, neu amodau pellach. Bydd angen i'r pwyllgor hefyd fodloni ei hun, yn ôl yr angen, fod:

a) y ceiropractydd wedi gwerthfawrogi difrifoldeb yr ymddygiad yn llawn;
b) nid yw'r ceiropractydd wedi ailadrodd yr ymddygiad;
c) mae'r ceiropractydd wedi cynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth neu wedi cyrraedd lefel foddhaol o gymhwysedd;
d) nad yw gallu'r ceiropractydd i ymarfer wedi'i amharu'n ddifrifol mwyach gan gyflwr meddwl neu gorfforol; ac
e) ni fydd cleifion yn cael eu rhoi mewn perygl drwy ailddechrau ymarfer na thrwy osod cofrestru amodol.

141. Dylai'r pwyllgor ystyried a yw'r ceiropractydd wedi cynhyrchu unrhyw dystiolaeth ar y materion hyn, a bydd yn ystyried ansawdd y dystiolaeth honno'n ofalus. Mewn achos iechyd, mae'n debygol y bydd y pwyllgor am weld tystiolaeth feddygol gyfoes ynghylch sut mae'r ceiropractydd yn rheoli eu cyflwr.

142. Mewn achosion lle mae'r ceiropractydd wedi cael eu heuogfarnu o drosedd, bydd y pwyllgor yn ystyried a yw unrhyw ddedfryd wedi'i chyflawni (gan ystyried paragraff 116 (Euogfarnau) o'r canllawiau hyn) ac a ydynt yn ymddangos ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw ar adeg yr adolygiad.

143. Mae'r opsiynau sydd ar gael i bwyllgor mewn gwrandawiad adolygu yn amrywio yn dibynnu a yw'r achos gerbron y PCC neu'r HC a'r gorchymyn sy'n cael ei adolygu (gweler Gorchymyn Atal Dros Dro gan y Pwyllgor Iechyd am ragor o fanylion am orchmynion sy'n cael eu hadolygu gan y HC).

144. Ar unrhyw adeg pan fo Gorchymyn Amodau Ymarfer mewn grym, gall y PCC (boed o'i gynnig ei hun ai peidio):

a) ymestyn, neu ymestyn ymhellach, y cyfnod y mae'r gorchymyn mewn grym;
b) dirymu neu amrywio unrhyw un o'r amodau;
c) gofyn i'r ceiropractydd basio prawf cymhwysedd a bennir gan y Pwyllgor;
d) lleihau'r cyfnod y mae'r gorchymyn mewn grym; neu
e) ddirymu'r gorchymyn.[14]

145. Lle mae'r PCC yn ymestyn neu'n lleihau'r Gorchymyn Amodau Ymarfer, neu'n pennu prawf cymhwysedd, bydd y gorchymyn mewn grym fel pe bai:

a) y cyfnod a bennir yn y Gorchymyn Amodau Ymarfer oedd y cyfnod wedi'i ymestyn neu ei leihau; a
b) phennwyd prawf cymhwysedd yn y Gorchymyn hwnnw.

146. Lle mae'r PCC wedi gosod Gorchymyn Atal Dros Dro, ar unrhyw adeg pan fo'r Gorchymyn hwnnw mewn grym, gall y PCC (boed o'i gynnig ei hun ai peidio):

a) ymestyn, neu ymestyn ymhellach, cyfnod yr atal dros dro; a
b) gwneud Gorchymyn Amodau Ymarfer y mae'n rhaid i'r ceiropractydd gydymffurfio ag ef os byddant yn ailddechrau ymarfer ceiropracteg ar ddiwedd y cyfnod atal dros dro.[15]

147. Mewn gwrandawiadau adolygu, bydd angen i'r pwyllgor ystyried a dod i gasgliad ynghylch a yw'r ceiropractydd wedi cydymffurfio ag unrhyw amodau a osodwyd yn y gwrandawiad blaenorol a rhoi rhesymau dros ei benderfyniad. Rhaid i'r pwyllgor wneud hyn cyn penderfynu a ddylid gosod gorchymyn pellach ai peidio.

148. Os na ellir gorffen gwrandawiad adolygu cyn diwedd y cyfnod cofrestru amodol neu atal dros dro, gall y pwyllgor ymestyn y cyfnod hwnnw am gyfnod byr pellach. Mae hyn er mwyn caniatáu i wrandawiad adolygu barhau cyn gynted ag sy'n ymarferol,

[14] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 22(7) – Cyfeirnod 2
[15] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 22(9) – Cyfeirnod 2

gan gadw'r amodau neu'r ataliad dros dro mewn grym tan y canlyniad. Dylai'r pwyllgor ofyn i'r ddau barti cadarnhau pryd byddant yn barod i ailddechrau'r gwrandawiad ac ystyried hynny wrth benderfynu ar gyfnod yr estyniad.

149. Lle bydd pwyllgor adolygu yn gosod sancsiwn pellach, dylai ystyried a ddylid cyfarwyddo gwrandawiad adolygu pellach ai peidio. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd gwrandawiad adolygu pellach yn angenrheidiol, oherwydd bydd y pwyllgor eisiau gwirio cydymffurfiaeth y ceiropractydd â'r gorchymyn eto cyn iddo ddod i ben. Pan fydd pwyllgor yn penderfynu peidio â chyfarwyddo cynnal gwrandawiad adolygu, rhaid iddo roi rhesymau yn egluro sail y penderfyniad i beidio â chyfarwyddo cynnal gwrandawiad adolygu.

## Atal Dros Dro Interim

150. Mae gan y pwyllgor y pŵer i orchymyn y Cofrestrydd i atal cofrestriad ceiropractydd dros dro ar unwaith lle mae'n penderfynu atal dros dro neu dynnu'r ceiropractydd oddi ar y gofrestr, os yw'n fodlon bod hyn yn angenrheidiol i amddiffyn aelodau'r cyhoedd. Mae hyn yn atal y ceiropractydd rhag ymarfer yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod y gallant apelio yn ystod y sancsiwn a hyd nes y bydd unrhyw apêl wedi'i phenderfynu. Gelwir hyn yn Orchymyn Atal Dros Dro Interim ('ISO').

151. Bydd ceiropractyddion neu'u cynrychiolwyr weithiau'n dadlau ni ddylid gwneud ISO, gan fod angen amser ar y ceiropractydd i wneud trefniadau ar gyfer gofal eu cleifion cyn i'r gorchymyn cadarnhaol ar gyfer atal dros dro neu dynnu oddi ar y gofrestr yn dod i rym. Wrth ystyried dadleuon o'r fath, bydd angen i'r pwyllgor gofio ei resymau dros osod sancsiwn penodol, ac mae pwrpas ISO yw amddiffyn y cyhoedd a budd ehangach y cyhoedd. Bydd y pwyllgor hefyd am ystyried y ffaith y bydd unrhyw geiropractydd y mae ei achos yn cael ei ystyried gan bwyllgor wedi bod yn ymwybodol o ddyddiad y gwrandawiad ers peth amser, felly dylai fod wedi cael digon o amser i gynllunio ar gyfer y posibilrwydd o wneud Gorchymyn Atal Dros Dro neu Orchymyn Tynnu oddi ar y Gofrestr (ac ISO).

152. Os ystyrir ei bod yn angenrheidiol atal ceiropractydd dros dro neu eu tynnu oddi ar y gofrestr, dylid ystyried atal dros dro interim bob amser fel cam rhesymegol i amddiffyn y cyhoedd yn ystod y cyfnod y gall y ceiropractydd apelio yn erbyn y sancsiwn. Bydd y pwyllgor yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid gosod ISO ai peidio yn seiliedig ar ffeithiau unigol yr achos.

# Pwyllgorau Iechyd

153. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 13 (Natur yr honiadau), bydd honiadau ynghylch iechyd corfforol neu feddyliol ceiropractydd yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Iechyd (HC) a bydd honiadau o unrhyw fath arall yn cael eu cyfeirio at y PCC.

154. Lle mae'r HC yn fodlon bo'r honiad ar sail gadarn, rhaid iddo osod naill ai Gorchymyn Amodau neu Orchymyn Atal Dros Dro.[16]

155. Pwrpas yr adran hon o'r canllawiau yw:

a) Esbonio proses gwneud penderfyniadau'r HC; ac
b) Amlygu rhai o'r gwahaniaethau main ynghylch gorchmynion o'r fath lle cânt eu gosod a'u hystyried ar adolygiad gan HC, yn hytrach na PCC.

156. Bydd HCs yn dal i ystyried pob adran o'r canllawiau hyn, cyn belled ag y maent yn berthnasol; yn benodol: 'Dull o ymdrin â sancsiynau a rhesymau'.

## Dull y Pwyllgor Iechyd

157. Yn achos honiad ynghylch amhariad ar y gallu i ymarfer oherwydd cyflwr corfforol neu feddyliol, dylai'r HC ymdrin â'i benderfyniadau yn y drefn hon:

a) a yw'r GCC wedi profi, ar sail tebygolrwydd, fod y ceiropractydd yn dioddef o'r cyflwr corfforol neu feddyliol fel y'i honnir. Os yw'r HC yn canfod nad yw hynny wedi'i brofi, nid yw'r honiad ar sail gadarn;
b) a yw, os yw'r GCC wedi profi bod y ceiropractydd yn dioddef o'r cyflwr corfforol neu feddyliol fel y'i honnir, gallu'r ceiropractydd i ymarfer fel ceiropractydd wedi'i amharu'n ddifrifol o ganlyniad i'r cyflwr corfforol neu feddyliol profedig. Os yw'r HC yn canfod nad yw, nid yw'r honiad ar sail gadarn;
c) os cyrhaeddir y trothwy ar gyfer amhariad yn seiliedig ar gyflwr corfforol neu feddyliol, pa un o'r sancsiynau yw'r lleiafswm sy'n angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd.

158. Bydd y HC yn mynd ati i wneud penderfyniad drwy wneud dyfarniadau ar bob un o'r tri cham hyn.

159. Lle bydd pwyllgor yn canfod nad yw honiad ar sail gadarn, ni chymerir unrhyw gamau a hysbysir y ceiropractydd o'r canlyniad hwn. Rhaid i'r pwyllgor roi rhesymau llawn dros y penderfyniad yn ei benderfyniad ysgrifenedig.

## Gorchymyn Amodau Ymarfer

160. Lle mae'r HC yn gosod Gorchymyn Amodau Ymarfer, mae'n dod i rym am y cyfnod a bennir yn y Gorchymyn[17], a gellir ei osod am hyd at dair blynedd yn y lle cyntaf. Nid oes darpariaeth yn y Ddeddf i'r HC bennu prawf cymhwysedd.

[16] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 23(2) – Cyfeirnod 2
[17] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 23(3) – Cyfeirnod 2

161. Os yw'r HC wedi canfod bod gallu'r ceiropractydd i ymarfer wedi'i amharu oherwydd eu cyflwr corfforol neu feddyliol, dylai'r Gorchymyn Amodau Ymarfer gynnwys amodau sy'n ymwneud â goruchwyliaeth feddygol y ceiropractydd, yn ogystal â rhai sy'n ymwneud ag ymarfer os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan trosfwaol.

162. Yn gyffredinol, nid yw'n briodol gosod amodau sy'n cynnwys gofyniad am oruchwyliaeth feddygol oni bai bod gallu'r ceiropractydd i ymarfer wedi'i amharu oherwydd eu hiechyd corfforol neu feddyliol. Gallai eithriad fod achos lle mae ceiropractydd wedi gwrthod cael asesiad iechyd neu lle mae ganddynt euogfarn sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

163. Wrth ystyried a yw Gorchymyn Amodau Ymarfer yn sancsiwn cymesur, bydd HCs yn ystyried paragraffau 41 i 51 (Gorchymyn Amodau Ymarfer) o'r canllawiau, fel y bo'n berthnasol, wrth asesu:

a) A yw amodau'n briodol;
b) Sut i lunio amodau (gan gynnwys defnyddio'r Banc Amodau); ac
c) Ystyried a ddylid gorchymyn Adolygiad.

## Gorchymyn atal dros dro gan Bwyllgor Iechyd

164. Gall HC osod Gorchymyn Atal Dros Dro am hyd at dair blynedd.

165. Gall Gorchmynion Atal fod yn briodol pan fo iechyd y ceiropractydd o'r fath fel nad yw'r pwyllgor yn fodlon y gall y ceiropractydd ymarfer yn ddiogel hyd yn oed pe bai amodau'n cael eu gosod. Mewn achosion o'r fath, mae'r HC yn debygol o fod eisiau cyfarwyddo gwrandawiad adolygu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfoes am iechyd y ceiropractydd ar gael i'r pwyllgor adolygu i'w alluogi i benderfynu a yw'r ceiropractydd wedyn yn ffit i ailddechrau ymarfer, naill ai o dan amodau neu heb gyfyngiadau.

166. Wrth ystyried ai Gorchymyn Atal yw'r sancsiwn cymesur, bydd HCs yn ystyried paragraffau 58-64 y canllawiau (Atal Dros Dro).

## Atal Dros Dro Interim

167. Yn yr un modd â PCCs, nid yw sancsiwn a osodir gan y HC yn dod i rym yn ystod y 28 diwrnod hyn nac, os cyflwynir apêl, nes bod yr apêl honno wedi'i phenderfynu. Yn ystod yr amser hwn, mae cofrestriad y ceiropractydd yn parhau i fod yn gwbl effeithiol oni bai bod y pwyllgor hefyd yn gorchymyn atal dros dro interim.

168. Lle mae'r HC yn gosod Gorchymyn Atal Dros Dro, bydd yn ystyried a ddylid gosod atal dros dro interim (gweler Atal Dros Dro Interim)

## Gwrandawiadau adolygu gan y HC

169. Lle mae'r HC wedi gosod gorchymyn Amodau Ymarfer, ar unrhyw adeg pan fo'r Gorchymyn hwnnw mewn grym, gall (boed o'i gynnig ei hun ai peidio):

a) ymestyn, neu ymestyn ymhellach, y cyfnod y mae'r Gorchymyn mewn grym; neu
b) wneud Gorchymyn Atal Dros Dro.[18]

170. Ar gais y ceiropractydd y mae'r Gorchymyn Amodau Ymarfer mewn grym mewn perthynas ag ef, gall y HC:

a) ddirymu'r Gorchymyn;
b) amrywio'r Gorchymyn drwy leihau'r cyfnod y mae mewn grym; neu
c) amrywio'r Gorchymyn drwy dynnu neu newid unrhyw un o'r amodau.[19]

171. Lle mae ceiropractydd yn gwneud cais i'r HC, ac mae'r cais hwnnw'n cael ei wrthod, ni fydd y HC yn ystyried cais pellach o'r fath oni bai ei fod yn cael ei wneud ar ôl diwedd cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau gyda'r dyddiad y cafodd y cais blaenorol ei adolygu gan y pwyllgor.

172. Lle mae'r HC wedi gosod Gorchymyn Atal Dros Dro, ar unrhyw adeg pan fo'r Gorchymyn hwnnw mewn grym, gall y HC (boed o'i gynnig ei hun ai peidio);

a) ymestyn, neu ymestyn ymhellach, cyfnod yr atal dros dro;
b) disodli'r gorchymyn gyda Gorchymyn Amodau Ymarfer sydd mewn grym am weddill y cyfnod atal dros dro; neu
c) wneud Gorchymyn Amodau Ymarfer y mae'n rhaid i'r ceiropractydd gydymffurfio ag ef os byddant yn ailddechrau ymarfer ceiropracteg ar ddiwedd y cyfnod atal dros dro.[20]

173. Ar gais y ceiropractydd y mae'r Gorchymyn Atal Dros  Dro mewn grym mewn perthynas ag ef, gall y HC:

a) ddirymu'r Gorchymyn;
b) amrywio'r Gorchymyn drwy leihau'r cyfnod y mae mewn grym.

174. Lle mae ceiropractydd yn gwneud cais sy'n cael ei wrthod, ni fydd y HC yn ystyried cais pellach o'r fath oni bai ei fod yn cael ei wneud ar ôl diwedd cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau gyda'r dyddiad y derbyniodd y HC y cais blaenorol.

175. Mewn gwrandawiad adolygu, bydd y HC hefyd yn ystyried paragraffau 139-149 (Gwrandawiadau adolygu) y canllawiau hyn yn berthnasol.

[18] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 23(4) – Cyfeirnod 2
[19] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 23(6) – Cyfeirnod 2
[20] Deddf Ceiropractyddion (1994) Adran 23(5) – Cyfeirnod 2

# Cyfeiriadau


1. **Cod Ymarfer Proffesiynol** - Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC) (2026). *(Cyrchwyd Mehefin 2026).* https://www.gcc-uk.org/COPP

2. **Deddf Ceiropractyddion 1994** *(Cyrchwyd Mehefin 2026)* https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1994/17/contents

3. **Polisi Cyhoeddi a Datgelu** – Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC) (2020). *(Cyrchwyd Mehefin 2026).* https://www.gcc-uk.org/assets/publications/Publication_and_Disclosure_Policy.pdf

# Rhannwch eich mewnwelediadau a'ch barn ar y canllawiau hyn drwy gymryd rhan yn yr ymgynghoriad rhwng 29 Mehefin a 16 Awst 2026

Rydym yn awyddus i ddeall eich mewnwelediadau a'ch barn ar ein canllawiau arfaethedig i benderfynwyr ar Sancsiynau.

Ewch i'r wefan, neu sganiwch y Cod QR i rannu'ch barn.

https://www.smartsurvey.co.uk/s/837FS8/

© Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Dylai ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon at:

Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

**Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol**
Park House,
186 Kennington Park Road,
Llundain, SE11 4BT

Ff: +44 (0)20 7713 5155
E: enquiries@gcc-uk.org
G: www.gcc-uk.org

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.